



## Aelodau o'r Senedd – Hysbysebion Swyddi

11 Tachwedd 2022

### Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 19 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

*I would like a breakdown of how many job adverts each MS has put up.*

*Can I have it broken down by MS and by year from 2016 to the present please?*

Yn dilyn y cais cychwynnol, rydych wedi cadarnhau eich bod yn dymuno gwybodaeth am y cyfnod rhwng mis Mai 2016 a mis Hydref 2022, sy'n cwmpasu'r Bumed Senedd yn llawn a'r Chweched Senedd hyd yma.

Mae'n hymateb i'ch cais am wybodaeth i'w weld fel atodiad PDF (e-bostiwrch [Cais-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Cais-gwybodaeth@senedd.cymru) i gael copi).

Caiff unrhyw gynlluniau recriwtio allanol eu cefnogi gan dîm Cymorth Busnes i'r Aelodau y Comisiwn ar ran Aelodau'r Senedd (Aelodau). O'r herwydd, mae'r ddogfen PDF atodedig yn cynnwys manylion llawn yr holl gynlluniau a weithredir.

Noder y gall y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau hwyluso recriwtio mewnol ar gyfer swyddi dros dro o hyd at chwe mis, neu y gall yr Aelodau eu hunain wneud hyn. Mae'n bosibl na fydd manylion unrhyw recriwtio sy'n cael ei wneud gan yr Aelodau eu hunain yn cael eu rhannu â'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau. Mae'r wybodaeth yn y ddogfen atodedig yn cynnwys manylion recriwtio mewnol a gofnodwyd gan y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau.

Mae pennod 7 o'r [Penderfyniad cyfredol yn rhoi](#) manylion am y lwfans sydd ar gael yn 2022/23 i Aelodau o'r Senedd ar gyfer cymorth staffio.

Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff, CF99 1SN  
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: [Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru)  
[Information-request@senedd.wales](mailto:Information-request@senedd.wales)

Mae'r holl Benderfyniadau cynharach perthnasol sy'n ymwneud â'r cais hwn ar gael ar **wefan y Bwrdd Taliadau**.

Yn gywir

**Buddug Saer**

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth  
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru  
Llywodraethu a Sicrwydd  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF